# <u>Sefydliadau Cerddoriaeth Enwebedig</u>
# <u>Gwybodaeth am Atseinio</u>

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cymhwysedd
3. Eich cyfranogiad, eich cyfrifoldeb a’ch ymrwymiadau amser
4. Disgwyliadau o ran diogelu, cefnogaeth a phwynt cyswllt

---

## 1. Cyflwyniad

Ers 2018, mae Anthem wedi gweithio gyda sefydliadau cerddoriaeth ieuenctid trwy ein Rhwydwaith Atsain a chyda phobl ifanc ar draws ein rhaglenni a’n digwyddiadau amrywiol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydyn ni wedi nodi ei bod yn anodd i bobl ifanc ennill profiad o weithio yn y sector ac yn anodd i sefydliadau cerddoriaeth ieuenctid gynnig cyfleoedd a hyfforddiant â thâl.

Atseinio yw rhaglen ddiweddaraf Anthem sydd wedi'i dylunio i helpu pobl ifanc i feithrin hyder, datblygu sgiliau ymarferol ac ennill profiad cyflogedig ystyrlon fel rhan o gymuned cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru. Gwneir hyn drwy brofiad gwaith uniongyrchol gyda sefydliad cerddoriaeth, gan ddarparu sesiynau sgiliau rheoli prosiectau a digwyddiadau, cyfleoedd hyfforddi wedi'u teilwra a datblygu portffolio.

Bydd 5 o gyfranogwyr Atseinio yn derbyn:

- Cyllideb o £500 ar gyfer cyfleoedd hyfforddi wedi'u teilwra
- Cyllideb o £400 i gynnal digwyddiad yn eu cymuned
- Taliad o £1400 am 11 awr o waith datblygiadol y mis dros gyfnod o 5 mis, a gall 6 awr o hyn gael ei ddefnyddio i weithio gyda'u sefydliad cerddoriaeth enwebedig
- Chymryd rhan yn ein Rhwydwaith Atsain

Yn y bôn, mae’r cyfranogwyr yn adeiladu portffolio datblygu sy'n cynnwys profiad gwaith, cynllunio digwyddiadau, rhwydweithio a hyfforddiant dros gyfnod o 5 mis.

---

2. **Cymhwysedd**

Rhaid i gyfranogwyr y prosiect fod:

- Yn gysylltiedig â sefydliad cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru naill ai drwy weithio gyda phrosiect neu fod yn gyfranogwr prosiect i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen
- Gofynnwn fod gan ymgeiswyr 1 flwyddyn o brofiad o fod yn gysylltiedig â sefydliad cerddoriaeth ond byddwn yn ystyried ceisiadau gan rai sydd â llai o brofiad.

- Yn 18-25 oed neu'n 18-30 oed os yn f/Fyddar, yn anabl neu'n niwrowahanol

- Wedi'u lleoli yng Nghymru ac yn meddu ar uchelgais i weithio yn sector y celfyddydau a cherddoriaeth yng Nghymru.

- Gallu mynychu'r rhestr o ddyddiadau hanfodol sydd wedi'i nodi isod.

Mae canllawiau ymgeisio i gyfranogwyr ar gael fan yma:

---

3. **Eich cyfranogiad, eich cyfrifoldeb a'ch ymrwymiad amser**

Rydyn ni'n cydnabod bod capasiti yn gyfyngedig felly rydyn ni wedi gwneud ymdrech ymwybodol i wneud rôl y sefydliad mor ysgafn â phosibl.

O ran eich cyfranogiad a'ch cyfrifoldebau, disgwylir i chi:

- Darllen a deall y pecyn gwybodaeth hwn yn ofalus a rhoi caniatâd i'r person ifanc enwebu eich sefydliad
- Darparu geirda byr fel rhan o gais y cyfranogwr
- Gosod tasgau gwaith i'r cyfranogwr er budd eich sefydliad
- Cyfrannu at ein harolwg gwerthuso ar ddiwedd y rhaglen a rhoi sylwadau am eich profiad

Efallai y bydd rhai cyfranogwyr yn cyflwyno cais i ddefnyddio eu cyllideb digwyddiad mewn cydweithrediad â'ch sefydliad. Mae hyn i'w drafod a'i benderfynu gan eich sefydliad a'r cyfranogwr.

O ran ymrwymiad amser…

- Mae gan gyfranogwyr gyfanswm o 11 awr â thâl y mis rhwng Medi 2026 a Ionawr 2027
- Bydd llwyth gwaith y cyfranogwyr yn cael ei rannu rhwng oriau rhaglen Atseinio *(cyfarfodydd, llenwi llyfr log portffolio, ceisio hyfforddiant, gweithio ar ddigwyddiad Atseinio)* a'u sefydliad enwebedig *(gweithgarwch i'w benderfynu rhwng y sefydliad a'r cyfranogwr)*
- Rydyn ni'n rhagweld y byddwch yn treulio cyfartaledd o 6 awr yn gweithio yn eich sefydliad bob mis; mae hyn yn golygu y bydd angen i chi dreulio amser yn dirprwyo tasgau sy'n cyd-fynd â chymaint â hyn o waith a chefnogi'r cyfranogwr lle bo angen.

---

## 4. Disgwyliadau o ran diogelu, cefnogaeth a phwynt cyswllt

Mae'n hanfodol bod Diogelu yn flaenllaw yn y rhaglen hon, gydag anghenion y cyfranogwyr yn cael eu hystyried a'u parchu drwyddi draw.

Mae'n debygol, fel sefydliad cerddoriaeth sefydledig, fod gennych bolisïau diogelu ar waith eisoes. Mae copi o'n polisi Diogelu ac adnoddau eraill i'w gweld ar ein gwefan fan yma:

Adroddiad diogelu Youth Music

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, eich cyswllt yw Rheolwr Rhaglen Anthem, Alexandra Jones, alexandra.jones@anthem.wales